Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ganolfan Gofal Plant The Mill
**5 Lôn Parcwr**
**Rhuthun**
**LL15 1BX**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2016**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn yr arfarniadau hyn, mae arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol, ac mae'r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau perthnasol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella a/neu enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio |
| **Gwael** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau a/neu enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n cael effaith negyddol ar blant |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ac AGGCC ar gael ar ein gwefannau priodol, sef:
www.estyn.llyw.cymru
www.cssiw.org.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 28/04/2016**

## Ynglŷn â’r lleoliad

| | |
|---|---|
| Enw’r lleoliad | Canolfan Gofal Plant The Mill Limited |
| Categori’r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Unigolyn Cofrestredig/Unigolion Cofrestredig | Ddim yn berthnasol |
| Unigolyn Cyfrifol (os yw’n berthnasol) | Ffion Mai Rees Roberts |
| Unigolyn sydd â gofal | Gillian Mary Kensall |
| Nifer y lleoedd | 118 |
| Ystod oedran y plant | 6 wythnos i 12 oed |
| Nifer y plant y plant sy’n cael eu hariannu ar gyfer addysg | 5 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 7.30am tan 6.00pm, dydd Llun i ddydd Gwener |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg a Saesneg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC | 15 Ebrill 2014 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Tachwedd 2011 |
| Dyddiadau’r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn: | 23 Chwefror 2016 a 24 Chwefror 2016 |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | |

## Crynodeb o'r Adroddiad

| Thema | Barn |
|---|---|
| Lles | Da |
| Dysgu | Da |
| Gofal a datblygiad | Da |
| Addysgu ac asesu | Da |
| Yr amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Da |

**Diffyg cydymffurfio**

**Fe wnaethom hysbysu'r darparwr nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Rheoliad Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010;**

Rheoliad 31(2)(a) a (b) – Darparu gwybodaeth. Y rheswm am hyn yw'r ffaith nad oedd yr unigolyn cyfrifol wedi rhoi gwybod i AGGCC am y newidiadau o ran yr unigolion sy'n gofalu am y plant.

## Argymhellion

A1 Datblygu dealltwriaeth plant o’r byd ehangach

A2 Gwneud defnydd gwell o asesu i gynllunio’n fwy systematig ar gyfer y camau nesaf mewn dysgu i bob plentyn unigol

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Lles | Da |
| --- | --- |

Mae bron pob un o’r plant yn cyfathrebu ac yn mynegi eu hunain yn dda. Maent yn mynd at ymarferwyr yn hyderus i ofyn am gymorth neu gefnogaeth ac yn gwybod y bydd ymarferwyr yn ymateb yn brydlon. Mae plant yn gwneud eu dewisiadau eu hunain am yr hyn y mae arnynt eisiau ei wneud a gyda phwy y mae arnynt eisiau chwarae. Mae’r rhan fwyaf o blant yn cyfrannu at syniadau, fel penderfynu actio stori Capten Hook ar long y môr-ladron.

Mae plant yn mwynhau dod i’r lleoliad ac maent yn awyddus i gymryd rhan yn y gweithgareddau a osodir ar eu cyfer. Mae bron pob un o’r plant yn ymdopi’n dda â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni, ac maent yn ymgyfarwyddo’n gyflym â’r drefn ddyddiol. Mae ganddynt gysylltiad agos â’u gweithiwr allweddol, ac o ganlyniad, maent yn teimlo’n ddiogel a saff. Mae bron pob un o’r plant yn fodlon a hapus. Maent yn ffurfio cyfeillgarwch o oedran cynnar, er enghraifft plant bach ifanc yn piffian chwerthin gyda’i gilydd yn y babell chwarae neu’n rhedeg ar ôl ei gilydd yn yr awyr agored.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn gweithio’n ddiwyd yn ystod y sesiynau ac yn dangos gwydnwch a dyfalbarhad priodol, er enghraifft wrth adeiladu tŷ yn yr ardal adeiladu er mwyn iddo ffitio o amgylch dadi arth mawr. Mae llawer o blant yn dangos gofal a phryder am ei gilydd ac maent yn fodlon rhannu teganau ac yn cydweithredu’n dda wrth ddefnyddio adnoddau a chymryd rhan mewn gweithgareddau, er enghraifft cymryd eu tro i ddod o hyd i eitem yn y gweithgaredd ‘beth sydd yn y bag’. Mae’r rhan fwyaf o blant yn ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddyd gan oedolyn, ac yn helpu i dacluso, er enghraifft ar ôl chwarae rhydd. Mae plant yn brysur ac yn cael eu symbylu, ac o ganlyniad, mae safonau ymddygiad yn gyson dda.

Mae bron pob un o’r plant yn hapus a bodlon. Mae’r rhan fwyaf o blant hŷn yn gwrando ar oedolion yn ystod cyfnodau grŵp, er enghraifft wrth wrando ar stori, ac yn ystod cofrestru yn ogystal, pan fyddant yn cael gwybod am y gweithgareddau arfaethedig sydd ar gael iddynt. Mae bron pob un o’r plant yn ymgysylltu â’r gweithgareddau ac yn dangos diddordeb ynddynt, er enghraifft wrth chwilio am bryfaid genwair yn yr hambwrdd mwd ac yn teimlo’n gyffrous pan fyddant yn dod o hyd i un. Maent yn awyddus i rannu eu cyflawniadau ac yn gwenu’n braf pan fyddant wedi cwblhau tasg, er enghraifft wrth lwyddo i adeiladu tŵr o flociau.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn dod yn annibynnol, er enghraifft wrth ddysgu am, ac arfer, iechyd geneuol da. Mae plant hŷn yn golchi eu dwylo ar ôl mynd allan i chwarae, a heb lawer o anogaeth, maent yn helpu i gau sip eu cotiau cyn mynd allan i chwarae. Mae’r rhan fwyaf o blant yn dangos hunan-barch da, er enghraifft pan fyddant yn dangos moesau da neu’n llwyddo i gwblhau tasg. Mae bron pob un o’r plant yn datblygu’n dda wrth iddynt gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau chwarae a dysgu. Maent yn magu hyder gan eu bod yn teimlo’n ddiogel yn eu hamgylchedd ac maent yn hapus i drefnu rolau ar gyfer eu cyfoedion ac ymarferwyr yn ystod gweithgareddau chwarae rhydd. Mae bron pob un o’r plant yn datblygu medrau iaith priodol, yn Gymraeg a Saesneg fel ei gilydd, a gallant fynegi eu hunain yn dda.

| Dysgu (yn berthnasol i blant sy'n cael eu hariannu yn unig) | Da |
|---|---|

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn gwahanol. Maent yn caffael gwybodaeth a medrau newydd yn frwdfrydig ac yn rhoi cynnig ar brofiadau newydd yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd buddiol â'u medrau cyfathrebu a phersonol a chymdeithasol, gan ddefnyddio'r rhain yn dda wrth iddynt chwarae a rhyngweithio ag oedolion. Maent yn cydweithredu'n hapus â phlant a phobl eraill ac yn fodlon cymryd eu tro wrth rannu offer. Mae medrau llythrennedd a chyfathrebu y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n astud ac yn siarad yn frwdfrydig am eu gweithgareddau. Mae llawer ohonynt yn dechrau sgyrsiau syml yn ddigymell hefyd. Mae llawer ohonynt yn dilyn ystod o gyfarwyddiadau gyda dealltwriaeth ac yn mwynhau rhannu llyfr gydag oedolyn ac yn cynnal diddordeb mewn storïau. Mae rhai plant sy'n fwy abl yn trin llyfrau yn briodol ac yn dangos ymwybyddiaeth fod y testun a'r lluniau yn 'adrodd' y stori.

Mae llawer o blant yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd i ddatblygu medrau ysgrifennu cynnar, gan ddefnyddio amrywiaeth o offer creu marciau, dan do ac yn yr awyr agored, er enghraifft wrth ddefnyddio blwch ysgafn i drasio a chreu patrymau ysgrifennu cynnar, a brwshys paent o wahanol faint i beintio lluniau o eirth.

Mae medrau rhifedd plant yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfrif i bump yn hyderus yn Gymraeg a Saesneg. Mae gan lawer ohonynt ddealltwriaeth dda o iaith leoliadol ac maent yn dechrau defnyddio termau mathemategol priodol wrth ddidoli a chymharu gwrthrychau. Er enghraifft, wrth ddidoli gwrthrychau sy'n gysylltiedig â'u siâp, gallant ddidoli yn ôl lliw neu faint. Mae llawer ohonynt yn deall y cysyniad 'mwy na' neu 'llai na' wrth siarad am stori 'Y Tri Arth'.

Mae cymhwysedd plant o ran defnyddio ystod o fedrau mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn datblygu'n dda. Mae llawer ohonynt yn defnyddio teganau wedi eu rheoli o bell yn annibynnol ac yn defnyddio botymau a switshis i newid cyfeiriad yr offer hwn yn hyderus. Mae hyn yn cefnogi datblygiad eu medrau datrys problemau yn dda, ac mae llawer ohonynt yn dyfalbarhau'n briodol os yw eu cynnig cyntaf yn anghywir.

Mae medrau Cymraeg plant yn dda. Mae llawer o blant yn ymateb yn briodol i'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir mewn arferion bob dydd. Maent yn adrodd rhigymau a chaneuon cyfarwydd yn rhwydd, ac yn dechrau defnyddio'r Gymraeg yn ddigymell wrth iddynt chwarae. Er enghraifft, mae llawer o blant yn deall ac yn defnyddio geiriau Cymraeg y maent wedi eu dysgu am liwiau a rhifau.

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau gweithgareddau corfforol, ac mae llawer ohonynt yn dangos cydsymud da wrth bedalu beiciau ac archwilio'r ffrâm ddringo.

| Gofal a datblygiad | Da |
|---|---|

Mae ymarferwyr yn cefnogi a hyrwyddo iechyd a lles plant ac yn eu hannog i ofalu amdanyn nhw eu hunain. Er enghraifft, mae plant yn golchi eu dwylo ar ôl mynd allan i chwarae, yn ogystal â dysgu am, ac arfer, iechyd geneuol da. Caiff ffyrdd iach

o fyw eu hyrwyddo'n dda, er enghraifft trwy roi digonedd o gyfleoedd i blant chwarae yn yr awyr agored yn ogystal â chynnig dewis iach o fwyd a diod. Mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel gan fod bron pob un o'r ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn o ran diogelu. Caiff plant eu trin â pharch. Er enghraifft, caiff eu gofal personol ei reoli yn ddiffwdan ac yn unol â'u hanghenion unigol. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau priodol wrth weini meddyginiaeth, ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt dystysgrif gyfoes mewn cymorth cyntaf.

Mae ymarferwyr yn gweithio yn unol â pholisi rheoli ymddygiad y lleoliad, ac mae eu dull o reoli ymddygiad annerbyniol yn gyson. Caiff strategaethau cadarnhaol sy'n mynnu ymddygiad derbyniol eu defnyddio'n dda gan sicrhau nad yw'n amharu ar sesiynau, a bod plant yn parhau'n brysur. Mae pob un o'r ymarferwyr yn arddangos ymarweddiad da trwy ddangos parch, ac mae bron pob un ohonynt yn defnyddio iaith gadarnhaol wrth siarad â'r plant.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda gan fod system gweithwyr allweddol wedi cael ei sefydlu. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn ymgyfarwyddo'n gyflym â'r drefn ddyddiol a'u bod yn cael gofal ymatebol mewn amgylchedd meithringar sy'n eu galluogi i dyfu a datblygu. Mae ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn cynllunio ar gyfer gweithgareddau sy'n cwmpasu'r holl feysydd chwarae a dysgu. Maent yn dysgu'n dda am eu diwylliannau eu hunain, yn ogystal â gwahanol ddiwylliannau. Er enghraifft, mae plant hŷn yn gwneud llusernau a drymiau Tsieineaidd i ddathlu'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd. Mae ymarferwyr yn defnyddio eu harsylwadau yn effeithiol wrth gynllunio'r camau nesaf yn natblygiad y plant; fodd bynnag, megis dechrau y mae'r drefn o gadw cofnodion ysgrifenedig o'r rhain ar gyfer pob plentyn unigol. Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn siarad Cymraeg a Saesneg yn hyderus ac mae plant yn dysgu'r ddwy iaith yn naturiol trwy gydol eu cyfnod yn y lleoliad.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau da i gynorthwyo plant ag anghenion ychwanegol. Mae ymarferwyr yn gweithio'n agos â rhieni ac asiantaethau cymorth pan gaiff anghenion ychwanegol eu nodi. Pan fydd angen, gweithredir yn unol â chynlluniau dysgu unigol mewn partneriaeth â rhieni.

Mae plant yn dysgu a thyfu wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau symbylol sy'n cynnal eu diddordeb a'u dychymyg. Er enghraifft, gallant chwilio am bryfaid genwair a chreaduriaid yn yr ardaloedd dynodedig yn yr awyr agored neu actio golygfa môr ladron ar long môr-ladron.

| | |
|---|---|
| **Addysgu ac asesu (yn berthnasol i blant sy'n cael eu hariannu yn unig)** | Da |

Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gynllunio ystod eang o weithgareddau dysgu sy'n ennyn diddordeb plant ac yn ymgysylltu â nhw'n dda. Mae'r cwricwlwm wedi ei seilio'n gadarn ar egwyddorion dysgu'r Cyfnod Sylfaen trwy brofiadau dysgu uniongyrchol. Mae gan ymarferwyr berthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda'r plant, ac maent yn defnyddio strategaethau effeithiol i reoli ymddygiad plant a chynnal eu diddordeb mewn dysgu.

Mae newidiadau diweddar i gynllunio wedi gosod pwyslais cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae hyn yn fuddiol o ran

datblygu medrau creu marciau cynnar plant a gwybodaeth am rif a siâp yn benodol. Mae cynllunio effeithiol ar gyfer defnyddio'r awyr agored yn cefnogi medrau llythrennedd a rhifedd plant yn dda.

Caiff plant eu hannog i fod yn annibynnol, meddwl drostynt eu hunain ac arbrofi â phrofiadau newydd. Mae ymarferwyr yn cynnwys plant yn briodol o ran cyfrannu syniadau ar gyfer themâu, ac maent yn hyblyg wrth addasu profiadau dysgu pan fydd plant yn dangos diddordeb penodol mewn gweithgaredd. Mae cynllunio yn darparu cyfleoedd da i blant ddatblygu eu medrau corfforol, er enghraifft wrth ddefnyddio'r ffrâm ddringo a'r llithren, beiciau pedal a chwarae gemau pêl.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd buddiol o ystod eang o ymwelwyr a theithiau cerdded o gwmpas yr ardal leol i wella profiadau dysgu plant. Er enghraifft, mae ymweliadau â'r llyfrgell yn hyrwyddo mwynhad plant o ddarllen yn llwyddiannus. Mae cymryd rhan yn y cynllun 'o'r fferm i'r fforc' ac ymweliadau ag archfarchnad leol yn cefnogi dealltwriaeth plant yn dda ynghylch o ble daw bwyd.

Mae ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn dda yn ystod amser carped grŵp cyfan a thrwy weithgareddau. Mae hyn yn annog plant i ymateb yn Gymraeg ac mae'n fuddiol i gaffaeliad plant o'r iaith, a'u brwdfrydedd drosti. Caiff plant gyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a dysgu caneuon Cymraeg.

Mae'r lleoliad yn cynnig ystod werth chweil o brofiadau dysgu i feithrin datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol plant yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo synnwyr o barchedig ofn a rhyfeddod trwy archwilio'r ardal yn yr awyr agored, lle mae plant yn mwynhau edrych ar yr adar trwy finocwlars ac wrth ofalu am falwod mawr o Dde Affrica. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ailgylchu ac arbed ynni yn briodol. Mae'n datblygu cyfleoedd i blant gael dealltwriaeth o'r byd ehangach trwy gyswllt â meithrinfa arall yn Ne Affrica. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae hyn.

Mae ymarferwyr yn defnyddio symbyliadau yn dda i ddal sylw plant, a'i gynnal, er enghraifft pan fyddant yn defnyddio pypedau a sachau stori i ennyn diddordeb plant mewn llyfr. Ceir cydbwysedd da rhwng gweithgareddau wedi eu harwain gan blant a gweithgareddau dan gyfarwyddyd oedolion. Mae ymarferwyr yn defnyddio holi yn effeithiol i ddatblygu meddwl plant ac ymestyn eu dysgu. O bryd i'w gilydd, mae rhediad y dysgu yn rhy araf, yn enwedig yn ystod cyfnod grŵp mawr, ac aiff y plant braidd yn aflonydd o ganlyniad.

Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol i olrhain cynnydd y plant. Mae gweithwyr allweddol yn cynnal asesiadau arsylwadol o blant yn rheolaidd ac yn defnyddio'r rhain yn briodol i lywio cynllunio yn y dyfodol. Fodd bynnag, ni chaiff y rhain eu defnyddio'n ddigon systematig bob amser i lywio'r 'camau nesaf' mewn dysgu ar gyfer plant unigol.

| **Yr amgylchedd** | Da |
|---|---|

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel a saff ac maent yn gwybod eu bod yn gyfrifol am sicrhau lles a diogelwch y plant. Er enghraifft, gellir cael mynediad

i'r adeilad trwy dechnoleg print bawd yn unig i sicrhau bod arweinwyr yn rheoli pwy sydd ar y safle ar bob adeg. Mae arweinwyr yn adolygu asesiadau risg yn rheolaidd ar gyfer y safle cyfan. Mae ymarferwyr yn cynnal gwiriadau ysgrifenedig a gweledol y lleoliad bob dydd, sy'n sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ar gyfer y plant. Mae ymarferwyr yn goruchwylio'r plant yn dda y tu mewn a'r tu allan, gan eu cadw'n ddiogel a hyrwyddo eu lles yn llwyddiannus. Mae arferion hylendid da ar draws y lleoliad yn helpu i leihau risg croes-heintiad.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn elwa ar amgylchedd croesawgar sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Mae plant yn teimlo eu bod yn perthyn, gan fod arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau addas yn cael eu gosod mewn ystafelloedd chwarae, sy'n eu galluogi i ddewis ac archwilio ar eu pen eu hunain. Mae adnoddau mewn lleoliadau cyfleus, fel toiledau a basnau golchi dwylo ar lefel isel, yn galluogi plant i ofalu am eu hanghenion personol naill ai'n annibynnol neu gyda'r cymorth lleiaf gan ymarferwyr. Mae ymarferwyr yn creu arddangosfeydd lliwgar ar y waliau, y mae plant wedi cyfrannu atynt, a phegiau cotiau y gall plant eu hadnabod fel eu rhai nhw eu hunain. Mae hyn yn gwella synnwyr y plant o berthyn. Mae pob un o'r plant yn treulio amser yn yr awyr agored gan fod ardaloedd chwarae a dysgu wedi eu lleoli mewn mannau cyfleus a gellir mynd atynt yn hawdd. Gall plant archwilio ac ymlacio yn rhwydd mewn amgylchedd cyfforddus a symbylol sy'n cael ei gynnal a chadw yn dda.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn gallu manteisio ar ystod eang o adnoddau chwarae a dysgu, y tu mewn a'r tu allan, sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cyfnod datblygu. Caiff pob un o'r plant gyfleoedd i archwilio eu dewis chwarae a dysgu gan fod teganau ac offer yn cael eu gosod o fewn cyrraedd iddynt. Mae arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau yn drefnus a glân. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn diheintio eitemau chwarae torri dannedd bob dydd ac yn golchi cadeiriau uchel ar ôl prydau bwyd.

| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | Da |
|---|---|

Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad fel amgylchedd meithringar a gofalgar lle mae plant yn hapus, yn awyddus i ddysgu ac yn hyderus. Mae'n rhannu hyn yn effeithiol gydag ymarferwyr a rhieni. O ganlyniad, ceir synnwyr cadarnhaol o waith tîm ac mae ymarferwyr a phlant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Fodd bynnag, cawsant wybod bod angen iddyn nhw hysbysu AGGCC am unrhyw newidiadau i bobl sy'n gofalu am blant. Mae'r arweinydd yn hysbysu'r unigolyn cyfrifol yn dda am gynnydd y lleoliad a meysydd i'w gwella.

Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o staff ac maent yn eu herio i wneud eu gorau. Maent yn sicrhau bod gan bob un o'r ymarferwyr ddisgrifiadau swydd cyfoes sy'n gwneud eu cyfrifoldebau'n glir. Mae digon o ymarferwyr sydd â chymwysterau addas i gyflawni eu rolau a chefnogi anghenion pob un o'r plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn mynychu cyrsiau hyfforddi perthnasol i ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau, ac mae arweinwyr yn cynnal adolygiadau goruchwylio rheolaidd a gwerthusiadau blynyddol i gefnogi datblygiad staff yn effeithiol. Mae gan y lleoliad brosesau addas ar gyfer recriwtio a defnyddio staff.

Ceir gweithdrefnau cadarn i sicrhau diogelwch pob un o'r plant a'r staff, ac fe gaiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn adnabod eu lleoliad yn dda ac yn cydweithio i adolygu perfformiad y lleoliad a nodi meysydd i'w gwella yn briodol. Er enghraifft, maent wedi nodi bod angen rhoi mwy o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau creu marciau a rhif cynnar. O ganlyniad, mae gweithgareddau ystyrlon dan do ac yn yr awyr agored wedi arwain at welliannau buddiol ym medrau plant.

Mae hunanarfarnu yn canolbwyntio'n briodol ar wella canlyniadau plant a gwella darpariaeth. Er enghraifft, mae'r lleoliad wedi llwyddo i wella medrau Cymraeg plant, a'u mwynhad a'u brwdfrydedd dros ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u harferion bob dydd. Mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth dda i safbwyntiau rhieni, a chyngor gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol, wrth gynllunio ar gyfer gwella. Er enghraifft, creodd y lleoliad dudalen cyfryngau cymdeithasol i roi gwybod yn fwy rheolaidd i rieni am ei arferion a'i ddigwyddiadau nesaf. Mae cynllun gwella'r lleoliad yn cynnwys nifer briodol o flaenoriaethau ac yn amlinellu'n glir sut a phryd y bydd yn mynd i'r afael â'r rhain. Mae arweinwyr yn nodi'r aelod o staff sy'n gyfrifol am arwain mentrau ac mae ganddynt raddfeydd amser addas a chostau clir ar gyfer unrhyw adnoddau neu hyfforddiant sydd eu hangen.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau cryf gyda rhieni sy'n gwneud cyfraniadau cadarnhaol at les plant. Mae arweinwyr yn hysbysu rhieni'n dda am y lleoliad trwy gylchlythyrau rheolaidd, cyfryngau cymdeithasol a hysbysfyrddau y mae ymarferwyr yn eu diweddaru'n rheolaidd. Mae adroddiad addysgiadol i rieni ar ddiwedd blwyddyn yn darparu gwybodaeth werthfawr ynghylch pa mor dda y mae eu plentyn yn gwneud. Mae gan y lleoliad gysylltiadau agos ag ysgolion lleol i sicrhau bod trefniadau i blant symud ymlaen i'r cam dysgu nesaf yn effeithiol.

Ceir partneriaethau gwerthfawr â'r gymuned leol. Er enghraifft, mae ymweliadau â'r siopau lleol, y llyfrgell a'r ganolfan arddio ac ymweliadau gan sefydliadau lleol, fel y fan ailgylchu, yn cyfoethogi profiadau dysgu plant yn fuddiol. Mae gan y lleoliad gysylltiadau hirbarhaus gyda gweithwyr proffesiynol a sefydliadau cymorth gofal plant eraill.

## Atodiad 1

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – ddim yn berthnasol.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf<br>Strongly Agree | Cytuno<br>Agree | Anghytuno<br>Disagree | Anghytuno'n gryf<br>Strongly disagree | Ddim yn gwybod<br>Don't know | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 10 | 9<br>90%<br>- | 1<br>10%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| My child likes this setting. | 10 | 8<br>80%<br>- | 2<br>20%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| I received information about the setting that enabled me to make an informed choice about whether to use the setting. | 10 | 8<br>80%<br>- | 2<br>20%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Derbyniais wybodaeth am y lleoliad a wnaeth fy ngalluogi i wneud dewis gwybodus ynghylch p'un ai i ddefnyddio'r lleoliad. |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 10 | 10<br>100%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| My child has a keyworker who ensures that his or her needs are met. | 10 | 7<br>70%<br>- | 3<br>30%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae gweithiwr allweddol gan fy mhlentyn, sy'n sicrhau bod ei anghenion / ei hanghenion yn cael eu bodloni. |
| My child is making good progress at the setting. | 10 | 8<br>80%<br>- | 2<br>20%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| Children behave well in the setting. | 10 | 7<br>70%<br>- | 3<br>30%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| Care is good. | 10 | 10<br>100%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae'r gofal yn dda. |
| Teaching is good. | 10 | 7<br>70%<br>- | 3<br>30%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 9 | 8<br>89%<br>- | 1<br>11%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 9 | 7<br>78%<br>- | 2<br>22%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf<br>Strongly Agree | Cytuno<br>Agree | Anghytuno<br>Disagree | Anghytuno'n gryf<br>Strongly disagree | Ddim yn gwybod<br>Don't know | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| My child is safe at the setting. | 10 | 7<br>70%<br>- | 3<br>30%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 9 | 7<br>78%<br>- | 2<br>22%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| I am kept well informed about my child's progress. | 10 | 7<br>70%<br>- | 3<br>30%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 10 | 9<br>90%<br>- | 1<br>10%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 8 | 4<br>50%<br>- | 4<br>50%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 2 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| My child is well prepared for moving on to school. | 10 | 4<br>40%<br>- | 6<br>60%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 8 | 4<br>50%<br>- | 4<br>50%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| The setting is well run. | 10 | 9<br>90%<br>- | 1<br>10%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0<br>0%<br>- | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |

## Atodiad 2

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn a gwefan AGGCC ( www.estyn.llyw.cymru) (www.cssiw.org.uk)

## Atodiad 3

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| **Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)** | Mae'r term hwn yn cwmpasu ystod eang iawn o anghenion. Rydym yn defnyddio'r term anghenion dysgu ychwanegol mewn perthynas â phlant sydd ag anghenion heblaw anghenion y rhan fwyaf o blant eraill yn y lleoliad, am nifer o resymau gwahanol. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>A1 datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>A2 medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>A3 datblygiad mathemategol<br>A4 datblygu'r Gymraeg<br>A5 gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>A6 datblygiad corfforol<br>A7 datblygiad creadigol |
| **Cyngor Gofal Cymru** | Dyma yw'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Gofal Cymdeithasol, y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Y cwricwlwm statudol ar gyfer pob plentyn rhwng tair a saith oed yng Nghymru, mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir fel ei gilydd. |
| **Dechrau'n Deg** | Gwasanaethau sy'n cyflwyno gofal plant rhan-amser, am ddim ar gyfer plant dwy oed cymwys i roi'r dechrau gorau iddynt mewn bywyd a'u paratoi ar gyfer yr ysgol. Maent hefyd yn darparu lefelau cynyddol o gymorth gan ymwelwyr iechyd a rhaglenni rhianta i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant ifanc. Mae'r rhaglenni hyn wedi bod ar waith er Ionawr 2007. |
| **Lleoliadau nas cynhelir a ariennir** | Lleoliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu addysg ran-amser i blant tair a phedair oed. Maent yn cynnwys cylchoedd chwarae, darparwyr gofal dydd preifat ac ysgolion annibynnol. |

| | |
|---|---|
| **Unigolyn allweddol neu system gweithwyr allweddol** | Ymarferwr sy'n cael ei neilltuo ar gyfer pob plentyn yw hwn/hon fel bod unigolyn cyfarwydd, y gall y plentyn ymddiried ynddo, ar gael iddo fel ei fod yn teimlo'n ddiogel a chyfforddus. Maent yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol ac yn siarad â rhieni yn rheolaidd. |
| **Arweinwyr** | Gall hyn gynnwys yr Unigolyn Cofrestredig, Unigolyn Cyfrifol neu Unigolyn sydd â Gofal<br>• Unigolyn cofrestredig – yr unigolyn sydd wedi'i gofrestru gan AGGCC i ddarparu'r gwasanaeth. Gallai hwn fod yn unigolyn neu'n sefydliad<br>• Unigolyn cyfrifol – lle mae'r unigolyn cofrestredig yn sefydliad, dyma'r unigolyn sy'n cael ei enwebu gan y sefydliad hwnnw i weithredu ar eu rhan<br>• Unigolyn sydd â gofal – yr unigolyn sy'n cael ei benodi gan yr unigolyn cofrestredig i fod yng ngofal y gwasanaeth o ddydd i ddydd |
| **Ymarferwyr** | Pawb sy'n gweithio'n uniongyrchol â phlant mewn lleoliad. |
| **Diogelu** | Dyletswydd statudol i gadw plant yn ddiogel a hyrwyddo'u lles. |